# CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid Arbennig, 3 Rhagfyr, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorwyr M. Lewis a H. Williams (Is-Gadeirydd).

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Y Cynghorwyr N. Mackie ac M. Michael.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg – Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam (Cadeirydd).

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. PENODI PENNAETH Y GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR (PW) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi a chytuno ar y broses recriwtio hyd yma.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o’r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 4. PENODI PENNAETH Y GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR (PW) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 15) –

PENDERFYNWYD –

(1) Y BOD penodiad H i swydd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn cael ei gymeradwyo.

(2) Y BOD yr holl drefniadau penodi gweddilliol yn cael eu dirprwyo i Brif Weithredwr Cyngor Bro Morganwg, ar ôl ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor hwn (Aelod Cabinet Cyngor Bro Morganwg dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldebau a Gwasanaethau Rheoleiddio).

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn galluogi gwneud yr holl drefniadau penodi eraill yn brydlon heb droi ymhellach at y Pwyllgor hwn.